# Meddiannu cartrefi

## Rhan A: Nodiadau'r Hyfforddwr

Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol
Diogelu GIG ar gyfer Cymru Ddiogelach

### 1 Archwilio llais y person sydd mewn perygl

- Dangosodd Andrew ofn drwy ymddygiad: llenni ar gau, edrych allan o'r ffenestr, amharodrwydd i siarad.
- Mae ei dawelwch a'i wyliadwriaeth yn adlewyrchu pryder, diffyg ymddiriedaeth a cholli rheolaeth.
- Rhaid i weithwyr proffesiynol sylwi ar arwyddion cynnil a chreu cyfleoedd diogel i siarad.

**Awgrymiadau'r hyfforddwr/ trafodaeth**
- Pa arwyddion a ddangosodd fod Andrew yn ofnus ac yn ansicr pwy i ymddiried ynddo?
- Sut gall gweithwyr proffesiynol ei helpu i deimlo bod rhywun yn gwrando arno, nid yn ei gwestiynu

**Gweithgaredd**
**Chwarae rôl:** ymweliad cefnogol byr gan ddefnyddio sicrwydd ac eiriolaeth i feithrin ymddiriedaeth.

### 2 Effaith ar y person sydd mewn perygl

- Effaith uniongyrchol: ofn, unigedd, cwsg wedi'i amharu, deiet gwael, colli ymreolaeth.
- Roedd presenoldeb ci mawr yn cynyddu'r bygythiad a'r diffyg rheolaeth.
- Risg hirdymor: dinistr ariannol, dirywiad iechyd, colli annibyniaeth/ urddas.

**Awgrymiadau'r hyfforddwr/ trafodaeth**
- Sut mae colli rheolaeth dros fudd-daliadau a lle yn y cartref yn effeithio ar lesiant?
- Pa risgiau sy'n cynyddu os yw'r cogio 9cuckooing) yn parhau?

**Gweithgaredd**
**Mapio grŵp:** risgiau uniongyrchol yn erbyn risgiau hirdymor i Andrew

### 3 Diogelu a dyletswydd gofal

- Pryderon: cam-drin ariannol, gorfodaeth, esgeulustod, ecsbloetio ("cogio").
- Mae dyletswydd gofal yn cwmpasu tai, yr heddlu, iechyd a gofal cymdeithasol.
- Cyfrinachedd wedi'i egluro ond yn cael ei ddiystyru er mwyn diogelu'r cyhoedd pan fo angen.
- Cydweithio amlasiantaeth yn hanfodol: diogelu, heddlu, tai, gwasanaethau i oedolion.

**Awgrymiadau'r hyfforddwr/ trafodaeth**
- Beth yw dyletswydd pob asiantaeth yma?
- Pryd mae'n rhaid torri cyfrinachedd?
- Sut mae gweithio ar y cyd yn cryfhau diogelu

**Gweithgaredd**
**Dyluniwch gynllun diogelwch amlasiantaeth:** heddlu, tai, diogelu oedolion, iechyd.

### 4 Myfyrdodau proffesiynol

- Rhaid i weithwyr proffesiynol gydbwyso dymuniadau Andrew (ymweliadau byr, peidio â dweud wrth ei fam eto) â'r ddyletswydd i ddiogelu.
- Dull sy'n ystyriol o drawma: amynedd, cysondeb, dyfalbarhad (peidio ag ildio pan wrthododd gefnogaeth i ddechrau).
- Mae ymddiriedaeth yn meithrin trwy gyswllt tosturiol ac ailadroddus.

**Awgrymiadau'r hyfforddwr/ trafodaeth**
- Sut fyddech chi'n dechrau sgwrs ddiogel gydag Andrew?
- Sut gall dyfalbarhad heb bwysau annog datgeliad?

**Gweithgaredd**
**Ymarfer myfyrio:** drafftiwch ddwy frawddeg agoriadol y byddech chi'n eu defnyddio gydag Andrew.

### 5 Penblethau moesegol ac emosiynol

- Gall gweithwyr proffesiynol deimlo ofn, tristwch, amddiffynoldeb, rhwystredigaeth.
- Her foesegol: parchu ymreolaeth Andrew yn erbyn atal cam-drin parhaus.
- Rheoli ffiniau: bod yn dosturiol ond heb fod yn rhy gysylltiedig.

**Awgrymiadau'r hyfforddwr/ trafodaeth**
- Sut mae eich emosiynau'n llunio ymateb mewn achosion o'r fath?
- Sut ydym ni'n osgoi llethu neu ruthro dioddefwr ofnus

**Gweithgaredd**
**Myfyrdod grŵp:** nodi ymatebion emosiynol personol a strategaethau ar gyfer hunanofal

### 6 Dysgu ymarferol

- Baneri coch: rheoli'r cartref/budd-daliadau, ynysu, bygwth.
- Mae ymweliadau pâr ac asesiadau risg yn amddiffyn y staff a'r dioddefwr.
- Gall dyfalbarhad gan weithwyr proffesiynol newid y sefyllfa.
- Cymorth a helpodd Andrew: bwyd, ffôn, cyswllt â mam, adleoli.

**Awgrymiadau'r hyfforddwr/ trafodaeth**
- Beth oedd yn sefyll allan yn fwyaf clir fel ffactorau risg?
- Pa gymorth ymarferol sy'n hyrwyddo adferiad?

**Gweithgaredd/chwarae rôl**
**Sesiwn cynllunio diogelwch:** Ymarferwch esbonio adleoli a chymorth yr heddlu i Andrew.

## Cymru: Cyfraith a Pholisi Allweddol

- **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** – adran 126 dyletswydd i roi gwybod am oedolion sydd mewn perygl.
- **Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019)** – canllawiau diogelu oedolion; ecsbloetio/cogio.
- **Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014** – Gorchmynion Cau, Gwaharddebau Sifil.
- **Deddf VAWDASV (Cymru) 2015** – yn berthnasol os yw cam-drin domestig yn gorgyffwrdd.
- **WASPI (Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru)** – ar gyfer rhannu gwybodaeth amlasiantaeth gyfreithlon.

# Meddiannu cartrefi

**Rhan B: taflen**

Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol
Diogelu GIG ar gyfer Cymru Ddiogelach

## Nod

**Nodi cogio; gweithredu gyda dyfalbarhad a chynllunio amlasiantaeth i ddiogelu'r dioddefwr.**

## Archwilio llais y person sydd mewn perygl

- Ofn Andrew yn cael ei ddangos mewn distawrwydd, llenni ar gau, amharodrwydd i siarad.
- Rhaid i weithwyr proffesiynol sylwi ar arwyddion cynnil a chreu gofod diogel.

## Myfyrdodau proffesiynol

- Mae dyfalbarhad + dull sy'n ystyriol o drawma yn meithrin ymddiriedaeth.
- Cydbwyso dymuniadau Andrew â dyletswydd diogelu.

## Effaith ar y person sydd mewn perygl

- Ar unwaith: ofn, deiet gwael, colli ymreolaeth.
- Hirdymor: dirywiad iechyd, cam-drin ariannol, ynysu.

## Penblethau moesegol ac emosiynol

- Gall gweithwyr proffesiynol deimlo ofn, tristwch, ac amddiffynoldeb.
- Rhaid parchu ymreolaeth ond atal cam-drin parhaus.

## Diogelu a dyletswydd gofal

- Pryderon: cam-drin ariannol, gorfodaeth, esgeulustod, ecsbloetio.
- Cydweithio amlasiantaeth yn hanfodol: heddlu, tai, gofal cymdeithasol, iechyd.
- Terfynau cyfrinachedd wedi'u hegluro ond yn cael eu diystyru er mwyn diogelwch.

## Dysgu ymarferol

1. Asesiad risg cyn ymweliadau (mynychu mewn parau).
2. Sylwi ar faneri coch: ynysu, rheoli budd-daliadau, bygwth.
3. Egluro cyfrinachedd yn glir.
4. Adeiladu cynllun diogelwch (tai, heddlu, lloches/adleoli).
5. Darparu cymorth ar unwaith (bwyd, cyswllt, ffôn).
6. Dal ati gyda chyswllt dilynol.

## Cymru: Cyfraith a Pholisi Allweddol

- **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 –** dyletswydd i roi gwybod am oedolion sydd mewn perygl adran 126.
- **Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019) –** canllawiau diogelu oedolion; ecsbloetio/cogio.
- **Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 –** Gorchmynion Cau, Gwaharddebau Sifil.
- **Deddf VAWDASV (Cymru) 2015 –** yn berthnasol os yw cam-drin domestig yn gorgyffwrdd.
- **WASPI (Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru) –** ar gyfer rhannu gwybodaeth amlasiantaeth gyfreithlon.